CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

7 Gorffennaf/July, 2015

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar **Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2015 am 11.00 o'r gloch y bore yn Council Chamber, Council Offices, Llangefni** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,

**YSGRIFENNYDD**

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Monday, 13 July, 2015 at 11.00 a.m., at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,

**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mr. Richard Parry Jones BA, MA
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

1 **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd.

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

4 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, cofnodion yr Ymddiriedolaeth Elusennol llawn a gafwyd ar 21 Ebrill, 2015.

5 **ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL** (Tudalennau 5 - 10)

- **Pwyllgor Adfywio**

  Cyflwyno i'w cadarnhau a'u mabwysiadu lle bo angen, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 22 Mai, 2015.

  **YN CODI**

  - **Menter Môn – cais am gyllid cyfatebol ar gyfer Cynllun LEADER – Partneriaeth Wledig Ynys Môn**

    Yn dilyn sesiwn cwestiwn ac ateb, **PENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn eu bod yn cefnogi bid Menter Môn am gyllid cyfatebol ar gyfer y rhaglen LEADER sef £110,000 y flwyddyn am dair blynedd.**

  - **Cymdeithas Sioe Amaethyddol Ynys Môn – cais i wella cyfleusterau er mwyn denu gweithgareddau pellach**

    Yn dilyn sesiwn cwestiwn ac ateb, **PENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ei bod yn cefnogi bid Cymdeithas Sioe Amaethyddol ynys Môn am gyllid cyfatebol £60k ar yr amod fod y Gymdeithas yn cael cyllid cyfatebol arall o ffynonellau lleol a dod a'r mater yn ôl i'r Ymddiriedolaeth pan fydd canlyniad y fid hon yn hysbys fel y gellir gwneud penderfyniad terfynol.**

- **Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

  Cyflwyno i'w cadarnhau a'u mabwysiadu lle bo angen, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 8 Mehefin, 2015.

  **YN CODI**

- **Rheoli Buddsoddi**

- **PENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn y dylid symud y portffolio i Gronfa Twf ac Incwm.**

**6** **EITEM SYDD YN DEBYGOL O GAEL EI CHYMRYD YN BREIFAT** (Tudalennau 11 - 12)

**7** **TIR RHOSGOCH** (Tudalennau 13 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Prisio mewn perthynas â’r uchod.

This page is intentionally left blank

# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | T. Victor Hughes (Cadeirydd)<br><br>Lewis Davies, Jim Evans, John Griffith, K P Hughes, D R Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, H E Jones, R Ll Jones, G O Jones, Richard Owain Jones, R.Meirion Jones, Raymond Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas and Ieuan Williams (ar gyfer eitemau 8 a 9 yn unig). |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen gan ddefnyddio teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaeth (Adfywio Economaidd a Chymunedol)<br>Rheolydd Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cyfrifeg(BHO)<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid)(BD)<br>Swyddogaeth Caffael(SR)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol(CS)<br>Swyddog Pwyllgor(MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Ann Griffith, T Ll Hughes, Vaughan Hughes, Carwyn Jones ac A M Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Ysgrifennydd, Mr. Richard Parry Jones, yn mynychu ei gyfarfod olaf o'r Ymddiriedolaeth Elusennol gan y bydd yn ymddeol ar 31 Mai 2015. Ar ran yr Ymddiriedolaeth, roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i Mr. Jones am ei wasanaeth rhagorol i'r Ymddiriedolaeth Elusennol dros y blynyddoedd. Dymunodd yn dda i Mr. Jones am ymddeoliad iach a dedwydd.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2015 yn amodol ar gynnwys enw Mr. John Griffiths yn y rhestr o ymddiheuriadau.

### 3 GWEINYDDIAETH YR YMDDIRIEDOLAETH

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod Mr. Philip Heath, Weightmans LLP wedi cael gwahoddiad i annerch y cyfarfod ynghylch y materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf mewn perthynas ag amrywio gweithred yr Ymddiriedolaeth. Nodwyd fod Mr. Heath yn parhau i ddisgwyl ymateb gan y Comisiwn Elusennau i'r cais.

Yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf, ychwanegodd yr Ysgrifennydd y dylid ystyried ardal Amlwch yn yr un modd ag unrhyw ardal arall yn yr Ynys o ran gwneud ceisiadau am gyllid grant gan yr Ymddiriedolaeth. Roedd wedi cysylltu gyda Chyngor Tref Amlwch am wybodaeth mewn perthynas â mantolen a buddiolwyr y gwaddol gan Shell UK i'r dref. Roedd y wybodaeth a oedd gan y Cyngor Tref ynghylch y gwaddol yn gyfyngedig ond nodwyd bod Amlwch wedi derbyn £69k gan

Shell UK i'w ddosbarthu i achosion da yn yr ardal.  Nododd yr Ysgrifennydd nad yw wedi derbyn unrhyw fantolen nac unrhyw arwydd ynghylch pa sefydliadau yn yr ardal sydd wedi elwa o'r cyllid grant.

Roedd Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn ystyried y dylid caniatáu i ardal Amlwch wneud ceisiadau am grant yn yr un modd ag ardaloedd eraill ar yr Ynys, ond y dylid cyflwyno mantolen sy'n dangos pwy sydd wedi derbyn arian o'r gwaddol.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod adroddiad diweddaru'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth Elusennol gan Mr. Philip Heath, Weightmans LLP ar Amrywio Gweithred yr Ymddiriedolaeth a Gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth.**

- **Y dylid caniatáu i ardal Amlwch gyflwyno ceisiadau am grant yn yr un modd ag ardaloedd eraill ar yr Ynys.**

## 4 NEWID I'R TREFNIADAU AR GYFER PENODI SWYDDOGION YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth(Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar gyfer y Cyngor Sir mewn perthynas â newidiadau i'r trefniadau ar gyfer penodi swyddogion ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Oherwydd cyfrifoldebau'r Cyngor fel y corff sy'n gweinyddu'r Ymddiriedolaeth, dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth(Adnoddau)/Swyddog Adran 151 pan fo swyddog perthnasol yr Ymddiriedolaeth yn peidio â bod yn swyddog perthnasol i'r Cyngor maent yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw i'r Ymddiriedolaeth ar unwaith a daw trefniadau dros dro i rym hyd nes y bydd swyddogion newydd wedi eu penodi.  Bydd unrhyw oedi o ran penodi swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth felly'n fygythiad posib i lefel y ddarpariaeth gwasanaeth a dylid cyfyngu'r bygythiad hwnnw i'r eithaf.

Er mwyn gwella effeithlonrwydd, hyblygrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau, cynigir y dylid ymestyn y diffiniad o swyddogion perthnasol y Cyngor i gynnwys penodiadau dros dro a bod swyddogion perthnasol y Cyngor yn dod yn swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth ar sail ex-officio.  Effaith y cynnig hwn fyddai tynnu cyn swyddog A151 y Cyngor fel Trysorydd yr Ymddiriedolaeth a'i disodli gyda Swyddog A151 cyfredol y Cyngor. Yn ogystal, mae Prif Weithredwr y Cyngor yn ymddeol ar 31 Mai 2015 a bydd y Prif Weithredwr newydd a benodwyd yn cymryd drosodd fel Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth o 1 Mehefin 2015.

- **Cymeradwyo ymestyn y diffiniad o swyddogion perthnasol i gynnwys swyddogion dros dro'r Cyngor sy'n cyflawni swyddi'r Prif Weithredwr, Swyddog A151, Swyddog Monitro (neu Brif Gyfreithiwr/wraig y Cyngor os nad yw'r Swyddog Monitro'n Gyfreithiwr/wraig) i swyddi Ysgrifennydd, Trysorydd a Chyfreithiwr/wraig yr Ymddiriedolaeth.**
- **Cadarnhau bod Prif Weithredwr, Swyddog A151 a Swyddog Monitro'r Cyngor (neu Brif Gyfreithiwr/wraig y Cyngor os nad yw'r Swyddog Monitro'n Gyfreithiwr/wraig) yn dal swyddi Ysgrifennydd, Trysorydd a Chyfreithiwr/wraig yr Ymddiriedolaeth ar sail ex-officio.**
- **Nodi mai'r Swyddog A151 cyfredol (Mr. Richard Micklewright) yw Trysorydd yr Ymddiriedolaeth o ddyddiad y cyfarfod hwn.**

## 5 CANOLFAN CODI PWYSAU A FFITRWYDD CAERGYBI AC YNYS MÔN – CAIS AM GYLLID

Cyflwynwyd i sylw'r Ymddiriedolaeth gais am gyllid a wnaed gan Ganolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi ac Ynys Môn.  Gwnaed cais am £60k i gyllido offer penodol ar gyfer perfformiad ac i'r cyhoedd eu defnyddio.  Roedd cynllun datblygu ar gyfer y cyfnod 2015/2018 wedi ei gyflwyno gyda'r cais.

Cafwyd cyflwyniad gweledol gan Ray Williams mewn perthynas â'r cais a hanes Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi ac Ynys Môn hyd yma.

Anerchwyd y cyfarfod gan Mr. Byron Jones a oedd yn gynrychiolydd o'r Ganolfan ac amlinellodd yr hyn yr oedd wedi llwyddo i wneud hyd yma a sut daeth i chwarae rhan yng ngweithgareddau'r ganolfan.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Ymddiriedolaeth ofyn cwestiynau i gynrychiolwyr Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi ac Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r cais am gyllid a wnaed gan Ganolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi ac Ynys Môn am swm o £60k ar yr amod bod y Ganolfan yn cyflwyno mantolen a bod yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd yn monitro'r drefn ar gyfer prynu offer ar gyfer y Ganolfan.**

Nododd Aelodau'r Ymddiriedolaeth eu bod yn dymuno cael trefn ar gyfer achosion pan gyflwynir ceisiadau am symiau mawr o arian. Nodwyd ymhellach y dylid ystyried sefydlu cronfa benodol o arian cyfalaf.

**PENDERFYNWYD bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn amlinellu trefn ar gyfer delio gyda cheisiadau mawr a neilltuo arian ar gyfer y Pwyllgor Adfywio i ddelio gyda cheisiadau o'r fath.**

**6 TIR RHOSGOCH – GOHEBIAETH A DDERBYNIWYD**

Dywedodd yr Ysgrifennydd y cafwyd gohebiaeth gan yr isod mewn perthynas â thir Rhosgoch:-

- Gohebiaeth gan Mr. Rhun ap Iorwerth AC.
- Gohebiaeth gan Glerc Cyngor Tref Amlwch.

Cytunwyd y byddai'r eitemau o ohebiaeth yn cael eu trafod yn eitem 8 ar y Rhaglen.

**7 EITEMAU A GYMERWYD YN BREIFAT**

**8 DIWEDDARIAD AR DIR RHOSGOCH**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Tony O'Keefe DTZ i'r cyfarfod.

Cafwyd adroddiad diweddaru gan Mr. O'Keefe ynghylch y broses ar gyfer gwahodd tendrau i ddenu darpar brynwyr ar gyfer y tir yn Rhosgoch.

Amlinellodd yr Ysgrifennydd y broses ofynnol ar gyfer cwrdd â darpar brynwyr ac awgrymodd y dylid sefydlu panel o blith Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd at ohebiaeth a gafwyd gan Mr. Rhun ap Iorwerth AC a Chlerc Cyngor Tref Amlwch yn gofyn i'r Ymddiriedolaeth ohirio'r broses o werthu safle Rhosgoch i ganiatáu amser i drafod gyda datblygwyr Wylfa Newydd. Roedd Aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystyried bod mater gwerthiant safle Rhosgoch wedi bod yn mynd ymlaen am nifer o flynyddoedd ac y dylai'r Ymddiriedolaeth bellach symud ymlaen i werthu'r tir ond y dylid cysylltu gyda datblygwyr Wylfa Newydd i sefydlu a oes ganddynt ddiddordeb yn safle Rhosgoch.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn symud ymlaen i werthu'r safle.**
- **Sefydlu panel i gwrdd â darpar brynwyr gyda'r aelodaeth a ganlyn:-**

**Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol**
**Mr. W.T. Hughes**
**Mrs. Llinos M. Huws**
**Mr. H. Eifion Jones**
**Mr. Ieuan Williams**

- **Awdurdodi'r Ysgrifennydd i gysylltu â datblygwyr Wylfa Newydd i sefydlu a oes ganddynt ddiddordeb yn safle Rhosgoch.**

## 9 DIWEDDARIAD AR DDYLED YR YMDDIRIEDOLAETH I GYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth(Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Mr. T. Victor Hughes**
**Cadeirydd**

# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mri. John Griffith, Derlwyn R. Hughes, W.T. Hughes, R. Meirion Jones, Bob Parry OBE.<br><br>Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd<br><br>Ysgrifennydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt yn y cofnodion hyn wrth deitlau eu swyddi yn CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro (BHO),<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) (BD),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mri. Carwyn Jones, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams.<br><br>Mr. Aled M.Jones - Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Gerallt Ll. Jones, Rheolwr-gyfarwyddwr – Menter Môn; Mr. John Adshead; Cynrychiolwyr o Gymdeithas Sioe Amaethyddol Ynys Môn; Dr. Margaret Wood a Mr. John Pinnington. |

---

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Mr. Richard Parry Jones am ymddeoliad hapus oherwydd hwn fydd ei gyfarfod diwethaf mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Dymunodd yr Aelodau a'r Swyddogion hwythau yn dda i Mr. Jones.

### 1 ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd Mr. Bob Parry OBE yn Gadeirydd.

Diolchodd Mr. Parry i'r Aelodau am eu hyder ynddo.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd Mr. Derlwyn R. Hughes yn Is-Gadeirydd.

### 3 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth Mr. T.V. Hughes (Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol) a Mr. Bob Parry OBE ddatganiad o ddiddordeb yn y cais a gyflwynwyd gan Gymdeithas Sioe Amaethyddol Ynys Môn ac aethant allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

### 4 EITEMAU A DRAFODWYD YN BREIFAT

### 5 CEISIADAU GRANT I GEFNOGI MENTRAU I ADFYWIO ECONOMI YNYS MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â cheisiadau am grantiau a dderbyniwyd i gefnog mentrau i adfywio economi Ynys Môn.

Dywedwyd mai cylch gorchwyl y Pwyllgor Adfywio yw ystyried sut y gellir defnyddio adnoddau'r Ymddiriedolaeth i wella ansawdd bywyd dinasyddion yn Ynys Môn, drwy adfywiad economaidd, creu swyddi cynaliadwy a fydd yn caniatáu i bobl Ynys Môn (yn arbennig felly'r bobl ifanc) i aros ac ennill bywoliaeth yn eu cymunedau, a defnyddio'r adnoddau hynny er budd y gymuned. Dros y blynyddoedd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu cyllid cyfatebol i gefnogi prosiectau megis Cynlluniau Ewropeaidd Menter Môn, sy'n denu adnoddau ychwanegol ar gyfer yr Ynys o amryfal ffynonellau allanol sydd ar gael ar gyfer adfywiad economaidd. Mae'r gweithgaredd hwn yn ychwanegol at y grantiau a roddwyd yn rheolaidd i sefydliadau gwirfoddol sy'n ymwneud â gweithgaredd yn y gymuned.

Dywedodd yr Ysgrifennydd y derbyniwyd 3 o geisiadau gan Menter Môn, Cymdeithas Sioe Amaethyddol Ynys Môn a GeoMôn.

- **Menter Môn – cais am gyllid cyfatebol ar gyfer Cynllun LEADER – Partneriaeth Wledig Ynys Môn**

  Dywedodd yr Ysgrifennydd fod Rheolwr-gyfarwyddwr Menter Môn eisoes wedi rhoddi cyflwyniad ar y cais hwn i'r cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth lawn a gyfarfu ar 22 Ebrill 2014. Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth bryd hynny i gefnogi'r cais mewn egwyddor a gofynnodd i'r mater gael ei ohirio er mwyn cael trafodaeth fanylach yn y Pwyllgor Adfywio. Y rheswm am wneud hynny oedd mai cais amlinellol oedd yr un a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth nid oedd wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygiad Gwledig. Ar 6 Chwefror 2015, cafwyd gwybodaeth bod y cais wedi bod yn llwyddiannus yn amodol ar sicrhau cyllid cyfatebol.

  Rhoes Rheolwr-gyfarwyddwr menter Môn gyflwyniad manwl i'r Pwyllgor Adfywio. Y fid am gyllid cyfatebol dan gynllun LEADER Menter Môn i'r Ymddiriedolaeth Elusennol yw £330,000 yn seiliedig ar yr £110,000 y flwyddyn am dair blynedd.

  Yn dilyn sesiwn cwestiwn ac ateb, **PENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn eu bod yn cefnogi bid Menter Môn am gyllid cyfatebol ar gyfer y rhaglen LEADER sef £110,000 y flwyddyn am dair blynedd.**

- **Cymdeithas Sioe Amaethyddol Ynys Môn – cais i wella cyfleusterau er mwyn denu gweithgareddau pellach**

  Rhoes Mr. John Adshead gyflwyniad manwl i'r Pwyllgor Adfywio. Roedd cynrychiolwyr o Bwyllgor y Sioe hefyd yn bresennol a chafwyd ganddynt wybodaeth gefndirol ar weithgareddau'r sioe a'r manylion ariannol. Mae Cymdeithas Sioe Amaethyddol ynys Môn yn gofyn am gyllid cyfatebol o £60k i'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

  Yn dilyn sesiwn cwestiwn ac ateb, **PENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ei bod yn cefnogi bid Cymdeithas Sioe Amaethyddol ynys Môn am gyllid cyfatebol £60k ar yr amod fod y Gymdeithas yn cael cyllid cyfatebol arall o ffynonellau lleol a dod a'r mater yn ôl i'r Ymddiriedolaeth pan fydd canlyniad y fid hon yn hysbys fel y gellir gwneud penderfyniad terfynol.**

- **GeoMôn – cais GeoBarc Ynys Môn**

  Rhoes Dr. Margaret Wood a Mr. John Pinnington gyflwyniad manwl i'r Pwyllgor Adfywio. Roedd GeoMôn yn gofyn am £125k yn 2015/16 yn codi i £132k yn 2018 ynghyd â £50k yn 2015/16 fel cyfalaf hwylus ar gyfer datblygu a rheoli prosiectau yn seiliedig yn y gymuned.

  Yn dilyn sesiwn cwestiwn ac ateb, **PENDERFYNWYD, oherwydd nad oes gan GeoMôn ffynonellau cyllido eraill ar hyn o bryd, gohirio ystyried cais GeoMôn ac awgrymu eu bod yn trafod opsiynau posibl ar gyfer cyllid cyfatebol gyda phrosiect LEADER Menter Môn a ffynonellau eraill. Bydd y mater yn cael sylw pellach gan yr Ymddiriedolaeth unwaith y bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn hysbys.**

**MR. BOB PARRY OBE**
**CADEIRYDD**
**MR. DERLWYN R. HUGHES**
**YR IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR AR GYFER SIOE AMAETHYDDOL YNYS MÔN**

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr. H E Jones (Cadeirydd)<br>Mr. G O Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Mri. T Ll Hughes, K P Hughes, Victor Hughes, R Ll Jones ac Alun W Mummery |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd,<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri. A M Jones a Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Rupert Cecil, Cyfarwyddwr Tîm Elusennau HSBC a Mr. Simon Pearson HSBC Bangor i'r cyfarfod.

**1** **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2** **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2014.

**3** **RHEOLI BUDDSODDI**

Cyflwynwyd - Adroddiad Chwarterol HSBC Global Asset Management (UK) Limited am y cyfnod hyd at ddiwedd Mawrth 2015. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y ffigurau mewn perthynas â'r difidendau yr oedd y portffolio wedi eu denu dros y 10 mlynedd diwethaf fel y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau yn y cyfarfod ym Mai 2014.

Dywedodd y Rheolwyr Buddsoddi mai amcan y portffolio yw tyfu'r cyfalaf yn unol â chwyddiant a chynhyrchu digon o incwm i gwrdd â'r gofynion llif arian y cytunir arnynt bob blwyddyn gyda'r ymddiriedolwyr. Y strategaeth y cytunwyd arni yw gwneud 1.5 % yn well na'r meincnod pwysau sefydlog y cytunwd arno bob blwyddyn dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Roedd y gronfa yn werth £17,754,534 ar 31 Mawrth 2015. Fodd bynnag, mae gwerth y gronfa wedi disgyn yn y misoedd diwethaf i ychydig o dan £17,500,000 oherwydd anwadalrwydd y marchnadoedd ariannol. Mae'r elw o'r portffolio ar hyn o bryd yn 2.7%.

Adroddwyd y ffefrir marchnadoedd ecwiti yn Ewrop a Siapan a bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol ar hyn o bryd wedi buddsoddi mwy yn ecwitïau'r Deyrnas Gyfunol. Awgrymwyd y dylid symud y portffolio i Gronfa Twf ac Incwm a allai roi difidend uwch bob blwyddyn i'r Ymddiriedolaeth.

Nododd y Trysorydd y daeth yn amlwg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fod sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid grant gan yr Ymddiriedolaeth, sy'n llawer uwch na'r grantiau a roddir i brosiectau bychan, wedi bod yn cyflwyno eu prosiectau i'r Ymddiriedolaeth lawn. Mae'r grantiau a roddwyd i'r sefydliadau hyn wedi bod yn llawer uwch na'r difidend a ddenodd y portffolio.

Cafwyd trafodaeth wedyn mewn perthynas â fframwaith moesegol portffolio'r Ymddiriedolaeth a

chytunwyd, yn sgil y bwriad i symud y portffolio i'r Gronfa Twf ac Incwm, y byddai'r mater yn cael ei drafod ymhellach cyn pen 12 mis.

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb **PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn yr adroddiad a diolch i gynrychiolwyr HSBC am ddod i'r cyfarfod;**
- **Argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn y dylid symud y portffolio i Gronfa Twf ac Incwm.**

## 4 EITEMAU A DRAFODWYD YN BREIFAT

## 5 AMCANGYFRIFON AR GYFER CONTRACT I REOLI'R GRONFA

Cyflwynwyd - adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r Contract Rheoli Buddsoddiadau.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) fod portffolio'r Ymddiriedolaeth o fuddsoddiadau wedi bod yn cael ei reoli gan HSBC Asset Management ers dros 15 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn mae HSBC wedi darparu lefel o wasanaeth yr ymddengys ei fod yn gyffredinol dderbyniol i'r Ymddiriedolaeth, o ran perfformiad ariannol a chefnogaeth swyddfa gefn. Elfen allweddol o stiwardiaeth ariannol gyfrifol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau bod y gwasanaeth i reoli'r gronfa yn darparu gwerth am arian o ran yr elw ar fuddsoddiadau ac o ran y ffioedd a godir am y gwasanaeth hwnnw.

Er mwyn ystyried lefel y ffioedd a godir ar hyn o bryd am reoli'r gronfa, gwnaed cymhariaeth gyda ffioedd rhai o'r rheolwyr cronfeydd mawr a mwyaf adnabyddus. Roedd tabl yn crynhoi'r canlyniadau wedi ei amlygu yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo parhad y contract rheoli buddsoddiadau gyda HSBC hyd nes 31 Mawrth 2018 (O.N. ni fydd hyn yn golygu gwneud contract gyda HSBC hyd at y dyddiad hwnnw), yn amodol ar herio ac adolygu'r gwasanaeth ar sail eithriad yn ystod y cyfnod hwnnw.**

## 6 CONTRACT AR GYFER Y GWASANAETHAU ARCHWILIO

Cyflwynwyd - adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio allanol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Dywedodd y Trysorydd bod archwilydd allanol yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn cyflawni'r swyddogaeth honno iddi am dros 15 mlynedd. Y gwasanaeth a ddarperir yw archwiliad statudol o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiredolaeth. Fel rhan o stiwardiaeth ariannol gyfrifol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth byddai'n briodol cynnal ymarfer caffael i sicrhau y ceir y gwerth gorau am arian.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Awdurdodi'r Trysorydd i lunio a chwblhau manyleb contract ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio allanol i'r dyfodol;**
- **Awdurdodi'r Trysorydd i gynnal ymarfer caffael yn seiliedig ar fanyleb y contract;**
- **Cytuno bod y Trysorydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda'r cynigion yn dilyn yr ymarfer caffael er mwyn ceisio dod i benderfyniad ar ddewis archwilydd allanol.**

**MR. H. EIFION JONES**
**Cadeirydd**

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Gwaredu Tir Rhosgoch / Disposal of Rhosgoch Land***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 13<br>Paragraph(s) 13 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
| Gall y cyhoedd fod â diddordeb i wybod sut mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cael gwared ar ei ased. / *The public may be interested to know how the Isle of Anglesey Charitable Trust is to dispose of its asset.* | Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth a fyddai o bosib yn golygu y gellid adnabod y bidiwr sy'n cael ei ffafrio a hynny ar adeg tyngedfennol cyn cyfnewid contractau. / *The report contains information that may allow the identification of the preferred bidder at a crucial time before contracts are exchanged.*<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth a fyddai o bosib yn golygu y gellid adnabod y bidwyr eraill ynghyd â'u cynigion aflwyddiannus. /<br>*The report contains information that may allow the identification of the other bidders along with their unsuccessful proposals.* |
| Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br>The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

CYFRINACHOL/CONFIDENTIAL

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank